Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu Ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	24 Tachwedd 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	David Wilson, Archwilio Cymru
Awdur	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Adolygiad Cynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adolygiad Archwilio Cymru o gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I gyflwyno copi o 'Adolygiad Cynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Archwilio Cymru ynghyd ag 'Ymateb y Rheolwyr' sydd ar gael yn Atodiadau 1 a 2.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r adroddiad ac ymateb y rheolwyr.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol, rheoli perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r rôl hon mae'n rhaid iddo hefyd ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol fel Archwilio Cymru.

4.2. Bydd cynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiwn.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae gwaith Archwilio Cymru yn ymdrin â rhai o’r Blaenoriaethau Corfforaethol (e.e. yr Amgylchedd) ac, yn fwy cyffredinol, effeithiolrwydd rheolaethau ariannol a pherfformiad Cyngor Sir Ddinbych.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Mae hwn yn adroddiad ar gynllun gwaith gan sefydliad allanol felly nid oes angen asesu’r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae’r adroddiad hwn wedi / bydd yn cael ei rannu gyda’r pwyllgorau perthnasol ymhob awdurdod lleol yn y gogledd sy’n aelodau o’r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.